

LIVING
STREETS

DEWCH I
NI GERDDED I'R
YSGOL

WOW - her cerdded i'r ysgol gydol y flwyddyn

Cystadleuaeth cynllunio bathodyn 2017

Cynlluniwch eich bathodyn WOW eich hun. Thema eleni yw: CERDDED GYFANDIROEDD AMERICA

Cynghorion gorau ar gyfer eich dyluniadau:

- Rydym yn chwilio am dyluniadau mawr, amlwg a lliwgar.
- Osgowch ychwanegu gormod o fanylion am fod y bathodynnau yn llai na 3cm o uchder. Dyluniadau syml sy'n gweithio orau.
- Bydd dyluniadau'r enillwyr yn cael eu hail-greu'n ddigidol, er mwyn i'r disgyblion allu defnyddio pensil, creon neu bin ysgrifennu.
- Osgowch ychwanegu nodau masnach, logos, lluniau o Strider neu lawer o bobl.

Dyma ychydig o enghreifftiau i gychwyn:

- Anifeiliaid (e.e. arth frown Alasga; lama Periw).
- Tirnodau wnaed gan ddyn (e.e. Machu Picchu, Periw; adeilad yr Empire State, Efrog Newydd).
- Tirweddau naturiol (e.e. Yr Andes; Yr Hafn Fawr).
- Pobl, digwyddiadau a gwareiddiadau hanesyddol (e.e. Asteciaid, Mecsico; Abraham Lincoln, Rhyfel Cartref America).
- Diwylliant e.e. cerddoriaeth a bwyd (e.e. Sudd masarn, Canada; Dawnsio Tango, Ariannin).
- Cymunedau / pobl frodorol (e.e. Quechua, Periw, Bolivia, Ecuador; Mapuche, Chile).

Am fanylion llawn ar sut i gystadlu yn y gystadleuaeth dylunio bathodyn WOW, ewch i www.livingstreets.org.uk/badgecomp2017

ENILLWCH

werth blwyddyn
o adnoddau WOW
i'ch ysgol hyd
at £500
mewn gwerth

Ble fydd
cyfandiroedd
America
yn eich
cymryd
chi?



Enw'r disgybl:

Oed:

Enw a chyfeiriad yr ysgol:

Rhif ffôn yr ysgol:


Dwedwch wrthym llun o beth rydych wedi'i dynnu a pham:

E-bost yr ysgol:

Awdurdod Lleol/Ymddiriedolaeth Academi:

Ble glywsoch chi am y gystadleuaeth?

Pa wlad mae eich dyluniad yn ei gynrychioli?





LIVIN

STREETS

DEWCH I
NI GERDDED I'R
YSGOL



WOW - her cerdded i'r ysgol gydol y flwyddyn

Cystadleuaeth cynllunio bathodyn 2017

Thema eleni yw: Cerddwch Gyfandiroedd America

Ymunwch ag un o gystadlaethau celf mwyaf y Deyrnas Unedig y gaeaf hwn. Mae gan Gyfandiroedd America lawer i'w gynnig: o dirweddau dramatig parciau cenedlaethol Canada, drwy fforestydd glaw Brasil sy'n ferw o fywyd, i lawr i rewlifoedd rhewllyd yn Ne Ariannin. Helpwch ni i ddathlu natur, diwylliant a hanes y cyfandiroedd hyn drwy ofyn i'ch disgyblion i ddylunio bathodyn sy'n dal nodwedd arbennig o'r rhanbarth.

Bydd 11 o'r dyluniadau buddugol yn cael eu troi i dros 400,000 o fathodynnau ac i'w gweld ar her WOW y flwyddyn nesaf. Gyda dros 120,000 yn cystadlu bob blwyddyn, fydd gan un o'ch disgyblion chi ddyluniad fydd yn ennill?

Beth yw WOW?

Mae disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol o leiaf unwaith yr wythnos yn cael gwobr o fathodyn misol, sy'n helpu i adeiladu arferion iach am oes. Gwneir y bathodynnau yn y Deyrnas Unedig o ddeunydd potiau iogwrt wedi'i hailgylchu. Am fwy o wybodaeth sut y gall eich ysgol gymryd rhan yn WOW, ewch i www.livingstreets.org.uk/walktoschool.

SUT I GYSTADLU

CAM 1: Gnewch lungopi a dosbarthwch gopïau o'r templed sydd dros y ddalen i bob dosbarth.

CAM 2: Casglwch ymgais pob disgybl a dewiswch y TRI DYLUNIAD GORAU ar gyfer y gystadleuaeth.

CAM 3: Anfonwch y tri dyluniad gorau i ni drwy'r POST: Walk to School, Living Streets, 4th Floor, Universal House, 88-94 Wentworth Street, London, E1 7SA
E-BOST: walktoschool@livingstreets.org.uk gyda'r llinell bwnc: 'Badge competition entry 2017'.

Y GWOBRAU

Bydd yr 11 dyluniad buddugol yn cael eu gwneud yn fathodynnau WOW 2017-18 a bydd yr enillwyr yn derbyn:

- Cyflenwad blwyddyn o adnoddau WOW i'w hysgol, hyd at £500 mewn gwerth.
- Tlws WOW a bag o nwyddau.
- Sylw yn y wasg yn lleol.

Amodau a thelerau yn berthnasol. Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth. www.livingstreets.org.uk/badgecomp2017

DYDDIAD CAU

DYDD GWENER, 17
MAWRTH 2017

Ni yw Living Streets, elusen y Deyrnas Unedig dros gerdded bob dydd.

#WALKTOSCHOOL LIVINGSTREETS.ORG.UK/WALKTOSCHOOL [f LIVINGSTREETSUK](https://www.facebook.com/LIVINGSTREETSUK) [@LIVINGSTREETS](https://twitter.com/LIVINGSTREETS)